

Bwrdd Cymwysterau Cymru

Cofnodion cyfarfod Bwrdd Cymwysterau Cymru a gynhaliwyd ar 27 Ionawr 2022 am 10.00am.

Yn bresennol:

Bwrdd Cymwysterau Cymru: David Jones (DBJ) (Cadeirydd), Douglas Blackstock (DB), Philip Blaker (PB), Julie Brannan (JB), Hannah Burch (HB), Anne-Marie Duffy (AMD), Michael Griffiths (MG), Graham Hudson (GH), John Latham (JL), Sharron Lusher (SL) a Jayne Woods (JW)

Staff Cymwysterau Cymru: Jo Richards (JR), Alison Standfast (AS), Emyr George (EG), Cassy Taylor (CT), Ashok Ahir (AA), Mark Pender (MP), Catrin Verall (CV) (eitem 6), Kate Welsher (KW) (eitem 9), Kerry Price (KP) (Eitem 10) a Lisa Evans (LE) (Eitem 10).

Llywodraeth Cymru: Jo Valentine (JV), Mike Keoghane (MK), Gail Deane (GD) a David Morris (DM).

Ymddiheuriadau: David W Jones (DWJ) a Leonie White (LW).

1. Croeso ac Ymddiheuriadau

1.1. Croesawodd y Cadeirydd yr holl aelodau i'r cyfarfod. Croesawodd Ashok Ahir hefyd, a benodwyd yn ddiweddar yn Gyfarwyddwr Cyfathrebu ac Ymgysylltu newydd, i'w gyfarfod cyntaf o'r Bwrdd.

2. Cofnodion Bwrdd Cymwysterau Cymru a gynhaliwyd ar 11 Tachwedd 2021 a Diweddariad ar y Camau Gweithredu

2.1. Cymeradwyodd y Bwrdd y cofnodion fel cofnod cywir o'r trafodaethau, yn amodol ar gywiro dyddiad ar dudalen 3 o'r cofnodion.

2.2. Nododd y Bwrdd y Log Gweithredu, a nododd y Cadeirydd nad oedd unrhyw gamau yn oedd angen eu hystyried yn y cyfarfod hwn.

3. Adroddiad y Cadeirydd

3.1 Rhoddodd y Cadeirydd adroddiad llafar i'r Bwrdd.

3.2 Diolchodd y Cadeirydd i holl aelodau'r Bwrdd a'r staff a oedd wedi cymryd rhan yn ei adolygiad perfformiad, a gynhaliwyd ar ddiwedd 2021, ac roedd yn falch o ddweud nad oedd unrhyw faterion o bwys wedi'u nodi. Roedd yr adolygiad wedi'i rannu â'r Pennaeth Llywodraethu Corfforaethol er mwyn sicrhau bod unrhyw gamau a oedd yn codi yn cael eu datblygu.

- 3.3 Roedd wedi cael ei gyfarfod adolygu blynyddol gyda Jeremy Miles, Gweinidog y Gymraeg ac Addysg, yn ddiweddar lle mynegodd y Gweinidog werthfawrogiad o'r berthynas agored a gonest yr oedd wedi'i mwynhau gyda Cymwysterau Cymru ers iddo gael ei benodi. Trafodwyd perfformiad y Bwrdd, yn ogystal â'r ymrwymiad parhaus i gynyddu amrywiaeth y Bwrdd. Roedd y meysydd eraill a drafodwyd yn cynnwys Cymwys ar gyfer y dyfodol; asesiad digidol; y Gymraeg; paratodau ar gyfer Haf 2022; a'r cytundeb cydweithio diweddar rhwng Llafur a Phlaid Cymru.

Crynodeb o Benderfyniadau /Camau Gweithredu:

Nododd y Bwrdd adroddiad y Cadeirydd.

4. Adroddiad y Prif Swyddog Gweithredol

- 4.1 Crynhodd PB waith ar draws y sefydliad nad yw'n cael ei ystyried mewn manau eraill yn yr agenda i'r Bwrdd.
- 4.2 Adroddwyd bod Ashok Ahir wedi'i benodi i swydd barhaol y Cyfarwyddwr Cyfathrebu ac Ymgysylltu yn dilyn ei gyfnod byr fel Cyfarwyddwr dros dro. Cyflwynodd AA ei hun i'r Bwrdd.
- 4.3 Roedd data rhagarweiniol o gyfres arholiadau Ionawr 2022 newydd gael ei dderbyn a oedd yn awgrymu nad oedd lefel yr absenoldeb wedi bod yn arbennig o uchel ac wedi bod yn debyg i'r lefel a welwyd ym mis Tachwedd 2021. Mewn ymateb i ymholiad gan aelod o'r Bwrdd am lefelau presenoldeb yn yr ysgolion yn fwy cyffredinol, cadarnhawyd, er bod y data mewn perthynas ag absenoldeb dysgwyr ar gael gan Lywodraeth Cymru, fodd bynnag, nad oedd unrhyw ddata cenedlaethol ar gael mewn perthynas ag absenoldeb athrawon.
- 4.4 Rhoddodd PB grynodedb o gyfarfod diweddar Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau lle'r oedd wedi siarad. Dywedodd mai'r prif bryder a fynegwyd yn y cyfarfod oedd tegwch a sicrhau nad oedd effaith y pandemig yn effeithio'n andwyol ar y dysgwyr mwyaf difreintiedig.
- 4.5 Roedd cynllun ar gyfer moderneiddio asesu (gan gynnwys technoleg ddigidol) yn cael ei ddatblygu. Mynegodd JL, AMD ac GH ddiddordeb mewn cymryd rhan yn y gwaith hwn a chytunodd PB i drefnu cyfarfodydd dilynol mewn perthynas â hyn.
- 4.6 Roedd gwaith yn mynd rhagddo o ran cynllunio gweithredol a chyllideb ar gyfer 2022/23, gan gynnwys cynnig i newid y gerio rhwng costau cyflog a chostau nad ydynt yn ymwneud â chyflog i ryddhau cyllid i gynyddu nifer y sefydliadau er mwyn darparu mwy o adnoddau.
- 4.7 Trafododd aelodau'r Bwrdd gynnwys adroddiad y Prif Swyddog Gweithredol a rhoddwyd adborth i'r Prif Swyddog Gweithredol lle y bo'n briodol.

Crynodeb o Benderfyniadau /Camau Gweithredu:

Nododd y Bwrdd adroddiad y Prif Swyddog Gweithredol.

5. Diweddariad ar Cymwys ar gyfer y dyfodol

- 5.1 Rhoddodd EG drosolwg o'r sefyllfa bresennol o ran rhaglen Cymwys ar gyfer y dyfodol. Nododd yr adroddiad sut y byddai'r Bwrdd yn cymryd rhan yn y gwaith sy'n deillio o'r prosiect dros y misoedd nesaf, gan gynnwys y pwyntiau penderfynu allweddol, a gofynnwyd i'r Bwrdd wneud sylwadau ar hyn.
- 5.2 Yn ogystal â chynnwys yr adroddiad, darparodd EG fwy o wybodaeth am waith ymgysylltu â dysgwyr a oedd i fod i ddigwydd y tymor hwn. Y bwriad oedd cynnal dau linyr o'r gwaith hwn: cyfres o grwpiau ffocws wedi'u teilwra i grwpiau oedran dysgwyr a oedd yn anelu at siarad â thros 300 o ddysgwyr; ac arolwg ar-lein i gyrraedd cymaint o ddysgwyr â phosibl gyda chymhellion bach yn cael eu cynnig i annog cyfranogiad. Nod y llinynnau hyn oedd darparu adborth ymarferol gan ddysgwyr i fwydo i mewn i'r gwaith datblygu ar y cyd.
- 5.3 Yn ystod y drafodaeth a ddilynodd, gwnaed y pwyntiau canlynol:
- Croesawodd aelod o'r Bwrdd gyflwyniad cymhwyster Iaith Arwyddion Prydain ac roedd hefyd yn falch o weld amrywiaeth aelodaeth y Grŵp Cyngori Academaidd.
 - Awgrymwyd y dylid darparu cynllun rhaglen lefel uchel yn y dyfodol i helpu aelodau'r Bwrdd i weld y cynnydd a wnaed a'r map ffordd ar gyfer dyfodol y prosiect. Cadarnhaodd EG fod cynrychiolaeth weledol lefel uchel o'r cynllun eisoes yn cael ei pharatoi a byddai'n hapus i rannu hyn gyda'r Bwrdd unwaith y byddai wedi'i gwblhau.
 - Dywedodd aelod o'r Bwrdd ei fod yn ymddangos bod y ddadl ynghylch cyflwyno gwyddoniaeth TGAU wedi lleihau rhywfaint dros y ddau fis diwethaf. Nodwyd bod tîm Cymwysterau Cymru yn dal i weithio i godi ymwybyddiaeth o'r sail ar gyfer y penderfyniad, ac nad oedd y tîm yn hunanfodlon o gwbl gan y gallai'r mater hwn godi eto yn y dyfodol.
 - Tynnodd aelod o'r Bwrdd sylw at y cysylltiad rhwng Cymwys ar gyfer y dyfodol a diwygiad Llywodraeth Cymru i'r fframwaith atebolrwydd ac roedd yn pryderu am y goblygiadau pe na bai'r ddau ddarn hyn o waith yn symud ymlaen ar yr un cyflymder. Cadarnhaodd EG fod ymgysylltu gweithredol â Llywodraeth Cymru ar y mater hwn, a gallai Cymwysterau Cymru ddewis ysgrifennu'n fwy ffurfiol at Lywodraeth Cymru ar y mater hwn unwaith y byddai eglurder ynghylch syniadau Llywodraeth Cymru ar ddiwygio'r fframwaith atebolrwydd.
- 5.4 O ran cynnwys y Bwrdd yn y gwaith sy'n deillio o'r prosiect dros y misoedd nesaf, cymeradwyodd y Bwrdd y cynlluniau fel y'u nodir yn yr adroddiad. Awgrymwyd y gellid ystyried cynigion y Gymraeg (i'w trafod yn ddiweddarach yn y cyfarfod) yn ddadleuol, ac felly gofynnwyd i'r Bwrdd gael yr wybodaeth ddiweddaraf am hyn wrth i'r gwaith fynd rhagddo. Gofynnwyd hefyd, pe bai cyfarfod ychwanegol o'r

Bwrdd ym mis Gorffennaf, y dylid egluro'r amseriad ar gyfer hyn cyn gynted â phosibl.

Crynodeb o Benderfyniadau /Camau Gweithredu:

Nododd y Bwrdd y diweddariad a ddarparwyd ar gam nesaf Cymwys ar gyfer y dyfodol a chymeradwyodd y cynlluniau ar gyfer cynnwys y Bwrdd a phenderfyniadau allweddol hyd at fis Medi 2022 fel y nodir yn yr adroddiad.

6 Cymwys ar gyfer y dyfodol - ein hargymhellion ar gyfer Cymwysterau Cymraeg y dyfodol

- 6.1 Nododd EG argymhellion mewn perthynas â chymwysterau Cymraeg y dyfodol fel rhan o'r prosiect Cymwys ar gyfer y dyfodol.
- 6.2 Atgoffwyd y Bwrdd ei fod, ym mis Medi 2021, yn dilyn yr ymgynghoriad Cymwys ar gyfer y dyfodol: y dewis cywir i Gymru, wedi cytuno i gadw ei benderfyniadau ar gymwysterau Cymraeg tan fis Ionawr 2022 er mwyn caniatáu mwy o amser i ailedrych ar yr opsiynau sydd ar gael a pharhau â'r trafodaethau cyfredol gyda Llywodraeth Cymru ynghylch polisi'r Gymraeg.
- 6.3 Cyflwynodd yr adroddiad argymhellion diwygiedig ar gyfer cymwysterau i ddiwallu anghenion dysgwyr mewn lleoliadau cyfrwng Cymraeg, lleoliadau dwyieithog a lleoliadau cyfrwng Saesneg. Parhaodd yr argymhellion i adlewyrchu'r blaenoriaethau yr oedd Cymwysterau Cymru wedi ymrwymo i'w cyflawni mewn perthynas â disgwyliadau'r Cwricwlwm newydd i Gymru, yn ogystal â nodau strategol ehangach mewn perthynas â'r Gymraeg. Roedd yr argymhellion hefyd yn cefnogi polisi Llywodraeth Cymru o sefydlu un continwwm ar gyfer addysgu a dysgu Cymraeg ("continwwm y Gymraeg") lle'r oedd Llywodraeth Cymru am weld mwy o ddysgwyr yn gadael addysg orfodol fel defnyddwyr hyderus o'r Gymraeg. Adroddodd EG nad oedd cadarnhad ysgrifenedig o safbwynt polisi Llywodraeth Cymru ar hyn wedi dod i law eto, ac awgrymwyd felly bod y Bwrdd yn gwneud penderfyniad mewn egwyddor heddiw hyd nes y derbynnir hyn.
- 6.4 Ychwanegodd CV fod cyfarfod adeiladol gyda Chymdeithas yr Iaith Gymraeg ar y mater hwn wedi'i gynnal y diwrnod cynt. Eglurwyd eu hawydd i gael un cymhwyster i bawb, ond cadarnhawyd nad oedd yr argymhellion wedi newid yn dilyn y cyfarfod hwn.
- 6.5 Yn ystod y drafodaeth a ddilynodd, cydnabuwyd natur gymhleth y maes gwaith hwn. Er y nodwyd nad oedd y perygl o ystyried bod y cynigion yn mynd yn ddigon pell, teimlwyd eu bod yn gam da at y dyfodol.
- 6.6 Roedd y rhan fwyaf o'r ddadl yn canolbwyntio ar yr argymhelliad canlynol (argymhelliad (b) fel y'i cynhwysir yn yr adroddiad:
 - *Byddwn yn creu cymhwyster ychwanegol ar gyfer dysgwyr mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg a gynlluniwyd i 'bontio' y ddau TGAU Cymraeg newydd mewn*

lleoliadau cyfrwng Saesneg a chyfrwng Cymraeg a dwyieithog. Byddai'r 'cymhwyster pontio' hwn yn cael ei astudio yn ogystal â'r prif TGAU. Byddai'r cymhwyster yn cael ei gynllunio i ategu ac adeiladu ar y dysgu sy'n digwydd o fewn y prif gymhwyster TGAU a byddai'n cefnogi dysgwyr i symud ymlaen ymhellach ar hyd y continwwm Cymraeg.

- 6.7 Holwyd y derminoleg a ddefnyddiwyd mewn perthynas â'r cymhwyster 'pontio' hwn, gan nad oedd yn glir beth oedd yn cael ei bontio a'r hyn yr oedd fod i'w gyflawni. Roedd peth pryder y gellid ystyried bod y cymhwyster hwn yn ddiangen ac y byddai'r nifer sy'n manteisio ar y cymhwyster ymhlith dysgwyr yn isel. Cydnabuwyd bod y defnydd o'r term 'pontio' efallai'n ddryslyd gan nad oedd yn dweud wrth bobl beth y byddai'n ei wneud i ddysgwyr, ac y byddai disgrifio hyn fel cymhwyster cyfoethogi / ymestyn yn fwy priodol. Cydnabuwyd efallai na fyddai gan rai lleoliadau cyfrwng Saesneg ddigon o athrawon fyddai'n ddigon hyderus yn eu sgiliau Cymraeg i addysgu'r cymhwyster a gynlluniwyd ar gyfer lleoliadau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog, felly byddai'r cymhwyster hwn yn chwarae rhan bwysig o ran sicrhau bod ystod o gymwysterau yn cynnig digon o her.
- 6.8 Nodwyd y byddai angen cyfathrebu cryf ac ymgysylltu â rhanddeiliaid i gyflwyno'r penderfyniad ac y byddai angen adolygu'r ystod o gymwysterau a gynigir wrth i fentrau sy'n ymwneud â'r Gymraeg ddatblygu.
- 6.9 Cytunwyd bod yr argymhellion yn ffurfio strwythur cymwysterau addas i symud ymlaen i'r cam datblygu ar y cyd i ganfod y manylion. Gellid hefyd ystyried materion yn ymwneud â therminoleg ac enwi ar hyn o bryd. Cefnogwyd y dull hwn gan y Bwrdd.

Crynodeb o Benderfyniadau /Camau Gweithredu:

Rhoddodd y Bwrdd gymeradwyaeth mewn egwyddor i'r argymhellion canlynol ar gyfer cymwysterau Cymraeg fel y nodir yn yr adroddiad, yn amodol ar dderbyn cadarnhad ysgrifenedig o safbwynt polisi Llywodraeth Cymru ar y Gymraeg:

- a) **Bwrw ymlaen â'r cynnig ar gyfer cymhwyster Cymraeg y dyfodol mewn lleoliadau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog (cynnig 1). Mae hyn yn golygu integreiddio'r cymwysterau TGAU iaith a llenyddiaeth Gymraeg presennol yn un cymhwyster TGAU. Mae'r argymhelliad hwn yn adlewyrchu'r penderfyniad a wnaed mewn perthynas â TGAU Saesneg y dyfodol.**
- b) **Rhoi'r gorau i TGAU Cymraeg Ail Iaith a chreu TGAU newydd, wedi'i gynllunio ar gyfer dysgwyr mewn cyd-destunau cyfrwng Saesneg sy'n adlewyrchu disgwyliadau Canllawiau'r Cwricwlwm. Ni fydd y cymhwyster newydd yn cael ei alw'n Gymraeg Ail Iaith mwyach. Ni fyddwn yn nodi maint y cymhwyster ar hyn o bryd; fodd bynnag, rhagwelir y bydd o leiaf yr un maint â'r TGAU Cymraeg Ail Iaith presennol.**

- c) **Creu cymhwyster ychwanegol ar gyfer dysgwyr mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg sydd wedi'u cynllunio i 'bontio' y ddau gymhwyster Cymraeg newydd mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg a chyfrwng Cymraeg a dwyieithog. Gellid astudio'r 'cymhwyster pontio' hwn yn ogystal â'r prif gymhwyster TGAU a'i gynllunio i ategu ac adeiladu ar y dysgu sy'n digwydd o fewn y TGAU a gallai gefnogi dysgwyr i symud ymlaen ymhellach ar hyd continwwm y Gymraeg. Bydd hyn yn destun oedi ac asesiad pellach yn dilyn y cyfnod datblygu ar y cyd, fel y nodir ym mharagraff 6.9 uchod.**
- ch) **Cefnogi gwaith tymor hwy Llywodraeth Cymru i fapio cymwysterau Cymraeg ar fframwaith cyfeirio iaith a gydnabyddir yn rhyngwladol (fel y Fframwaith Cyfeirio Ewropeaidd Cyffredin (CEFR)).**

7 Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil - Cyflwyniad

- 7.1 Cafodd y Bwrdd gyflwyniad gan Gail Deane a David Morris o Lywodraeth Cymru a roddodd drosolwg o gynnwys y Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil (a elwid gynt yn Fil Addysg a Hyfforddiant ôl-orfodol). Cyflwynwyd y Bil i'r Senedd ar 1 Tachwedd 2021 ac os caiff ei basio byddai'n dod yn gyfraith erbyn haf 2022.
- 7.2 Ar ddiwedd y cyflwyniad, diolchodd y Cadeirydd i Gail a David ar ran y Bwrdd am eu cyflwyniad addysgiadaol.

8 Trefniadau asesu a dyfarnu ar gyfer 2022

- 8.1 Derbyniodd y Bwrdd gyflwyniad gan JR ar y trefniadau asesu a dyfarnu ar gyfer haf 2022. Yn ystod y cyflwyniad, ymdriniwyd â'r pwyntiau canlynol:
- Disgwylid y byddai arholiadau'n mynd rhagddynt yn ôl y bwriad, ond roedd dull asesu wrth gefn yn parhau pe bai angen. Roedd cynlluniau cyfathrebu ar y cyd wedi'u sefydlu gyda Llywodraeth Cymru a CBAC.
 - Ymhlith y risgiau allweddol roedd: Gall dwy flynedd heb arholiadau ffurfiol arwain at ddiffyg ymgyfarwyddo ag arholiadau ymhlith athrawon, arholwyr a dysgwyr; gallai tonnau pellach yn y pandemig amharu ar drefniadau mewn perthynas ag arholiadau a marcio; gall fod llawer iawn o addasiadau gan y Ganolfan i asesiadau di-arholiad adeg safoni; ac efallai na fydd dysgwyr yn sefyll unrhyw asesiadau ac felly ni fyddant yn derbyn gradd.
 - Cafodd fframweithiau rheoleiddio haf 22, dull dyfarnu Cymwysterau Cyffredinol a dull monitro Cymwysterau Cyffredinol/Cymwysterau Galwedigaethol eu crynhoi i'r Bwrdd.

Crynodeb o Benderfyniadau /Camau Gweithredu:

Nododd y Bwrdd y diweddariad ar drefniadau asesu a dyfarnu ar gyfer haf 2022

9 Arolwg Pobl 2021

- 9.1 Mynychodd KW ar gyfer yr eitem hon a rhoddodd ganlyniadau Arolwg Pobl Cymwysterau Cymru 2021 i'r Bwrdd. Derbyniwyd 84 o ffurflenni a oedd yn cyfateb i gyfradd ymateb o 89%. Roedd hyn ychydig yn is na chyfradd ymateb 2020 o 94%.
- 9.2 Roedd y canlyniadau cyffredinol ychydig yn is na'r llynedd, a thynnwyd sylw'r Bwrdd at y meysydd a welodd ostyngiad nodedig.
- 9.3 Yn ystod y drafodaeth a ddilynodd, dywedodd aelodau'r Bwrdd fod y sgoriau yn yr arolwg yn parhau'n gryf iawn, yn enwedig yng ngoleuni'r heriau a ddaw yn sgil gweithio o bell yng nghyd-destun y pandemig, ac y byddai'n destun cenfigen i lawer o sefydliadau. Roedd y sgôr Llesiant o 95% yn dyst bod Cymwysterau Cymru'n sefydliad sy'n cael ei redeg yn dda iawn. Nodwyd hefyd, o ystyried bod Cymwysterau Cymru yn sefydliad bach, fod llond llaw o ymatebion anfodlon wedi cael effaith anghymesur ar y ffigurau.

Crynodeb o Benderfyniadau /Camau Gweithredu:

Nododd y Bwrdd ganlyniadau Arolwg Pobl 2021 a'r meysydd gweithredu yr oedd y Bwrdd Rheoli wedi cytuno i ganolbwyntio arnynt.

10 Cynllun Gweithredol ac Adroddiad Cyllideb 2021/22 (gan gynnwys trosolwg o'r cynllunio ar gyfer 2022/23)

- 10.1 Mynychodd LE ar gyfer yr eitem hon a chyflwynodd ddiweddariad ar Gynllun Gweithredol 2021/22. Adroddwyd bod pob un o'r pum blaenoriaeth weithredol yn cael eu hystyried yn rhai gwyrdd.
- 10.2 Rhoddodd AS yr wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd am weithredu'r system gyllid newydd, a gafodd ei hystyried yn goch ar hyn o bryd. Roedd agwedd y cyflenwr yn llawer gwell ac roedd sail bellach dros optimistiaeth ofalus. Cadarnhawyd bod y materion allweddol yn ymwneud â defnyddio'r system yn hytrach na'i swyddogaethau a sicrhawyd y Bwrdd nad oedd unrhyw berygl i'r system fethu â bodloni ein gofynion yn llwyr. Byddai'r system bresennol yn cael ei chynnal nes bod y system newydd wedi'i sefydlu.
- 10.3 Daeth KP i'r cyfarfod i gyflwyno adroddiad Diweddarau'r Gyllideb (QWB52.10b) a oedd hefyd yn cynnwys manylion y paratodau ar gyfer pennu'r gyllideb ar gyfer 2022/23. Dywedodd KP fod y sefydliad, ar ddiwedd mis Rhagfyr 2021, wedi gwario £6.075m a'i fod yn rhagweld gwariant pellach o £3.066m yn y chwarter olaf. Dangosodd hyn y byddai 33% o gyfanswm y gwariant yn cael ei wario yn ystod chwarter olaf y flwyddyn a oedd, er ei fod yn uchel, yn gyson â blynyddoedd blaenorol.

- 10.3 Rhagwelwyd gwariant o £9.141m, o'i gymharu â chyllideb o £9.853m, a fyddai'n arwain at danwariant amcangyfrifedig o £712k (7%). Roedd y rhagolwg gwariant hwn wedi gostwng £296k o'i gymharu â'r hyn a adroddwyd ym mis Tachwedd, yn dilyn lefel arall o eglurder ynghylch costau posibl Cymwys ar gyfer y dyfodol, ac adolygiad o ddarpariaethau risg mewn gweithgareddau craidd a ariannwyd.
- 10.4 Cyflwynodd LE hefyd naratif lefel uchel ar gyfer y cynllun gweithredol ar gyfer 2022/23. Bwrdd hyn oedd rhoi golwg gynnar i'r Bwrdd ar flaenoriaethau'r cynllun gweithredol ar gyfer 2022/23 a byddai'n cael ei fireinio dros y ddau fis nesaf cyn gofyn i'r Bwrdd gymeradwyo'r cynllun gweithredol yn ei gyfarfod ym mis Mawrth 2022 yn dilyn gwaith craffu yn y Pwyllgor Adnoddau.

Crynodeb o Benderfyniadau /Camau Gweithredu:

Nododd y Bwrdd Gynllun Gweithredol ac Adroddiad Cyllideb 2021/22 a'r naratif lefel uchel ar gyfer y cynllun gweithredol ar gyfer 2022/23

11. Adroddiad Rheoli Risg

- 11.1 Rhoddodd MP yr wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd am gynnwys y Gofrestr Risgiau Corfforaethol.

Crynodeb o Benderfyniadau /Camau Gweithredu:

Nododd y Bwrdd yr adroddiad rheoli risg a'r gofrestr risg gorfforaethol.

12. Yr wybodaeth ddiweddaraf am y Pwyllgor Rheoleiddio

- 12.1 Cyflwynodd y Cadeirydd adroddiad (QWB52.12) a oedd yn crynhoi'r busnes a drafodwyd yng nghyfarfod y Pwyllgor Rheoleiddio ar 20 Ionawr 2022. Adroddwyd bod y rhan fwyaf o'r cyfarfod wedi'i dreulio'n ymchwilio'n ddwfn i risgiau'n ymwneud â'r trefniadau darparu a dyfarnu ar gyfer cymwysterau cyffredinol yn ystod haf 2022.
- 12.2 Cafodd y Pwyllgor hefyd ddiweddariadau ar fframweithiau rheoleiddio Cymwysterau Cyffredinol/Cymwysterau Galwedigaethol, dull dyfarnu Cymwysterau Cyffredinol a dull monitro Cymwysterau Cyffredinol/Cymwysterau Galwedigaethol ar gyfer Haf 2022, a chyflwyniad ar yr adolygiad o bolisi Cymwysterau Cymru ar gymwysterau blaenoriaeth a chymwysterau nad ydynt yn flaenoriaeth.

Crynodeb o Benderfyniadau /Camau Gweithredu:

Nododd y Bwrdd yr wybodaeth ddiweddaraf gan y Pwyllgor Rheoleiddio

13. Prosiect Llwybr i Aelodaeth Bwrdd

- 13.1 Darparodd AS fanylion y prosiect Llwybr i Aelodaeth Bwrdd. Roedd Acorn (a ddefnyddiwyd gan Cymwysterau Cymru ar gyfer gwasanaethau yn ystod proses recriwtio ddiwethaf y Bwrdd) yn gweithio gyda grŵp o Ymddiriedolaethau Tai i gefnogi rhaglen gyda'r nod o ddatblygu unigolion o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig a oedd â'r potensial i ddod yn aelodau o'r Bwrdd yn y dyfodol. Byddai'r prosiect yn recriwtio carfan o aelodau posibl o'r Bwrdd ac yn cynnig hyfforddiant, mentora a'r cyfle i arsylwi ar gyfarfodydd y Bwrdd dros gyfnod o 12 mis. Roedd sawl corff arall yn rhoi cymorth i'r rhaglen, a nodwyd y byddai'r prosiect yn croesawu cefnogaeth gan Cymwysterau Cymru mewn mentora ac o bosibl yn caniatáu arsylwi ar ei gyfarfodydd Bwrdd. Gofynnwyd i'r Bwrdd ystyried a oedd yn dymuno cefnogi a chymryd rhan yn y prosiect hwn.
- 13.2 Mynegodd aelodau'r Bwrdd gefnogaeth i'r prosiect hwn a chroesawodd y fenter i gynyddu amrywiaeth Byrddau ledled Cymru.

Crynodeb o Benderfyniadau /Camau Gweithredu:

Cytunodd y Bwrdd y dylai Cymwysterau Cymru gefnogi prosiect Llwybrau at Aelodaeth Bwrdd drwy ddarparu mentora a chaniatáu arsylwi cyfarfodydd y Bwrdd. Gofynnwyd i aelodau'r Bwrdd roi eu henwau i Lywodraethu Corfforaethol os byddant yn dymuno cael eu cyflwyno fel mentoriaid ar gyfer y prosiect hwn.

14. Rhagolwg

- 14.1 Nododd y Bwrdd y Rhagolwg a gofynnwyd i'r aelodau gysylltu ag MP pe byddai unrhyw eitemau yr hoffent eu hychwanegu at agendâu'r dyfodol.

15. Unrhyw fusnes arall

- 15.1. Atgoffodd y Cadeirydd y Bwrdd o'r sesiwn ddeuddydd ddiwedd mis Mawrth a dywedodd yr ymgynghorir â'r aelodau ymlaen llaw ar ei gynnwys.

Daeth y cyfarfod i ben am 3.00 pm